# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## ADRODDIAD I'R PWYLLGOR DEDDFAU

## Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn dod yn uniongyrchol yn sgil Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000 ac Argymhelliad y DU ar gyfer system gyffredinol o barcio cerbydau personau anabl. Cyfeirir yr Aelodau felly at yr adroddiad dyddiedig 25ain o Fai 2000 ar y Rheoliadau hynny.

Mae'r Rheoliadau (sy'n cael eu gwneud o dan Adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970) yn diddymu Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) 1982 ac (ymhlith pethau eraill):

1. yn rhagnodi'r personau hynny y gellir rhoi bathodyn anabl iddynt (ac yn rhoi'r hawl i awdurdodau lleol roi bathodynnau o'r fath i sefydliadau)

2. yn pennu ffi uchaf o £2 y caiff awdurdod lleol ei mynnu am fathodynnau o'r fath

3. yn dweud pryd caiff awdurdod lleol wrthod rhoi bathodyn ac yn darparu ar gyfer hawl i apelio o dan rai amgylchiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i Lys Ynadon

4. yn rhagnodi ffurf y bathodynnau, sut y dylid eu harddangos ac o dan ba amgylchiadau y ceir eu harddangos.

Mae Rheoliadau tebyg wedi'u gwneud ledled y DU.

**Rheol Sefydlog 11.5**

**Deddf Hawliau Dynol 1998**

Bydd yr aelodau yn gwybod ei bod yn ofynnol i is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 ac ag erthyglau perthnasol y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Yn yr achos hwn, mae Rheoliad 8 yn darparu seiliau i awdurdodau lleol wrthod rhoi bathodyn

person anabl. I grynhoi, mae’r seiliau hynny yn ymwneud â chamddefnyddio bathodyn blaenorol person anabl, camliwiad twyllodrus, a methiant gan unigolyn i ddarparu tystiolaeth ddigonol i’r awdurdod lleol ei fod ef neu ei bod hi yn berson sy’n cyfateb i un neu ragor o’r disgrifiadau a ragnodir gan Reoliad 4. Mae’r rhan fwyaf o’r disgrifiadau a ragnodir yn Rheoliad 4 (2) yn cyfeirio at faterion sy’n dibynnu ar ddarnau eraill o ddeddfwriaeth, er bod dau ohonynt (yn rheoliad 4(2)(e) ac (f)) yn hunan-gynhwysol ac yn gofyn bod penderfyniad yn cael ei wneud o dan y Rheoliadau hyn (mae’r disgrifiadau yn ymwneud ag anabledd difrifol yn aelodau uchaf y corff sy’n golygu bod person yn methu â throi llyw, ac anabledd parhaol a sylweddol sy’n achosi anallu i gerdded neu anhawster i wneud hynny).

A bwrw bod hyn yn gyfystyr â "determination of civil rights" (fel y’i rhagwelwyd gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998), rhaid cydymffurfio wedyn ag Erthygl 6 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae Erthygl 6(i) yn darparu fel a ganlyn:

*"In the determination of civil rights and obligations or of any criminal charge against him, everyone is entitled to a fair and public hearing within a reasonable time by an independent and impartial tribunal established by law. Judgement shall be pronounced publicly but the press and public may be excluded from all or part of the trial in the interest of morals, public order or national security in a democratic society, with the interest of juveniles or the protection of the private life of the party sole require, or to the extent strictly necessary in the opinion of the court in special circumstances where publicity would prejudice the interest of justice."*

Er mwyn cydymffurfio i bob golwg â Deddf Hawliau Dynol 1998, mae’r Rheoliadau hyn yn darparu gyntaf ar gyfer apêl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac yna ymlaen i Lys Ynadon.

Er hynny, mae Rheoliad 10(1) yn cyfyngu’r apêl hon i’r seiliau a bennir yn Rheoliad 8(2)(a) a Rheoliad 9(2). (A siarad yn fras) dim ond â sefyllfaoedd camddefnyddio neu gamliwio’n dwyllodrus y mae hyn yn ymdrin ac nid yw’n ymdrin ag asesu’r disgrifiadau o anabledd y cyfeirir atynt yn Rheoliad 4(2). Ar yr olwg gyntaf, mae’n ymddangos felly fod y Rheoliadau hyn yn torri Deddf Hawliau Dynol 1998.

Wrth ystyried y p•er galluogi ymhellach, mae Adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 yn dangos, serch hynny, nad oes unrhyw b•er i ragnodi hawl i apelio ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ragnodir yn y Rheoliadau (h.y. ar seiliau camddefnydd neu gamliwiad twyllodrus). Gan dybio ei bod wedi’i gadarnhau felly fod Erthygl 6 wedi’i thorri, nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru unrhyw ddewis ond bwrw ymlaen â’r Rheoliadau fel y maent wedi’u drafftio ar hyn o bryd gan mai’r ddeddfwriaeth sylfaenol (y p•er galluogi) yw’r ddeddfwriaeth sydd wedi’i thorri. Byddai’r is-ddeddfwriaeth felly yn "inevitably incompatible" ac ni fyddai Deddf Hawliau Dynol 1998 wedi’i thorri gan y Cynulliad.

Er hynny, mae cymhlethdod arall yn codi yn sgil y cyfeiriad at apêl i Lys Ynadon. Tybir bod hyn wedi'i fewnosod yn y Rheoliadau er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 6, ond y gwir amdani yw nad yw'r p•er galluogi yn darparu ar gyfer apêl i Lys Ynadon, dim ond ar gyfer apêl i'r "Ysgrifennydd Gwladol" (i'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru).

O ganlyniad, rhaid tynnu sylw arbennig y Cynulliad at y mater hwn o dan Reol Sefydlog 11.5 gan fod amheuaeth i bob golwg a yw'r is-ddeddfwriaeth o fewn p•er y Cynulliad.

Cyn cyflwyno adroddiad, dylai'r Cadeirydd hysbysu'r Ysgrifennydd Cynulliad a'i cyflwynodd gerbron y Cynulliad o fwriad y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad o'r fath a rhoi cyfle i'r Ysgrifennydd Cynulliad roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ac ateb unrhyw gwestiynau y mae'n eu codi, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig.

**Rheoliad 2**
O ddehongli'r diffiniad o "person anabl" yn fanwl-gywir, mae angen y gair "who" cyn "corresponds" yn y testun Saesneg er mwyn rhoi'r ystyr cywir i'r frawddeg. Teimlir bod hyn yn fater y gellir ei gywiro drwy ddefnyddio'r weithdrefn newydd o dan Reol Sefydlog 22.12A.

**<u>Sylwadau Cyffredinol</u>**

**Y Nodyn Esboniadol**
Unwaith eto, dylid pwysleisio nad yw'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cydnabod bathodynnau personau anabl Aelod-wladwriaethau eraill y UE ac o ganlyniad mae'r ddau baragraff cyntaf o'r Nodyn Esboniadol yn gamarweiniol.

**Rheoliad 2**
Mae defnydd amhriodol o "ayb" yn y diffiniad o "bathodyn person anabl". Ni fyddai angen y talfyriad "ayb" pe bai'r geiriau "yn lle un a gollwyd" wedi'u hepgor.

Yn y diffiniad o "person anabl", dywedir bod rhaid i'r person fod yn fwy na dwy flwydd oed. Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei ailadrodd yn ddiangen yn Rheoliad 4(1) ac mae'n awgrymu bod y diffiniad o'r person anabl yn gallu cynnwys person sy'n llai na dwy flwydd oed pan nad yw hynny'n bosibl.

Mae'r diffiniad o "collfarn berthnasol" wedi'i wahanu oddi wrth weddill y diffiniadau. Tybir bod hyn wedi'i wneud am fod y diffiniad yn hirfaith. Er hynny, buasai'n briodol yn yr achos hwn i'r diffiniad o "collfarn berthnasol" gael ei restru gyda'r diffiniadau eraill gan ddatgan bod yr ystyr i gael ei nodi yn Rheoliad 2(3).

Mae Rheoliad 2(2) yn dod rhwng y setiau o ddiffiniadau a dylai felly fod ar ddiwedd Rheoliad 2.

**Rheoliad 3(2)(a)**

Mae drafft y testun Saesneg yn anodd gan nad yw’n amlwg ar unwaith fod "application made" yn cyfeirio at gais sy’n cael ei wneud i awdurdod lleol. O ddarllen y testun Cymraeg mae’n glir mai cais i awdurdod lleol yw’r cais sy’n cael ei wneud. Buasai’r drafftio’n well petai’r testun wedi dechrau â’r geiriau "any application made to a local authority" neu fel arall petai coma wedi’i roi rhwng "or in relation to" a "a local authority in Wales…"

**Mân wallau teipograffyddol –**

- colon diangen ar ôl "Rhan I" yn "Trefn y Rheoliadau"
- cromfach yn y lle anghywir yn y diffiniad o "holder" yn y testun Saesneg
- gwahanodau diangen ar ôl Rheoliad 9(1)(b) (y testun Cymraeg) Rheoliad 9(1)(c) (y testun Saesneg)

**DYLAN M HUGHES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**26 Mai 2000**

Ein cyf: LAD -01-01-108